Cyngor Tref *Aberystwyth* Town Council

NODIADAU AR GYFER CEISIADAU GRANT

Cyflwyno grantiau Cyngor Tref Aberystwyth

Mae grantiau Cyngor Tref Aberystwyth yn cael eu rhoi er budd pobl a phrosiectau lleol i Aberystwyth. £2000 yw'r ffigwr uchaf a gynigir

Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried am gymorth ariannol, tuag at brosiect neu weithgaredd penodol, gan gymdeithasau cymunedol, diwylliannol, addysgol, chwaraeon a mudiadau elusennol, sy'n anfasnachol a gydag aelodaeth a maes gweithgaredd wedi'i leoli o fewn ffin Cyngor Tref Aberystwyth.

Mae'r cynllun yn darparu grantiau cychwyn ar gyfer sefydliadau newydd yn ogystal â grantiau i sefydliadau sy'n bodoli eisoes.

Mae'n bosib y dyfarnir Aelod o'r Cyngor i grŵp a fydd yn derbyn grant o £2,000 i weithredu fel sylwedydd yng nghyfarfodydd y grŵp ac fel cyswllt â'r Cyngor.

Wrth ystyried eich cais

Byddwn yn edrych ar:

- pa mor dda y bydd y grant yn cwrdd ag anghenion y gymuned
- pa mor effeithiol y bydd eich grŵp yn defnyddio'r grant
- a yw'r costau yn briodol ac yn realistig
- lefel y cyfraniadau a godwyd yn lleol
- a ellir disgwyl i'r ymgeisydd sicrhau cyllid digonol o ffynhonnell fwy priodol
- sut mae'r grŵp yn cael ei reoli

Bydd yn ofynnol i grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc, a / neu oedolion sy'n agored i niwed, i gael polisïau diogelu yn eu lle a'r holl staff i gael gwiriadau heddlu dilys. Bydd

disgwyl hefyd i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ar gyfer eu gweithgareddau.

Peidiwch ag oedi i gysylltu â Chlerc y Dref os hoffech drafod y ffurflen gais cyn ei chwblhau.

Pryd i wneud cais

Cynigir grantiau yn flynyddol ym mis Ebrill.

Rhaid i bob cais ddod i law yn Swyddfa'r Cyngor Tref erbyn 1 Ebrill

Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Pwy all wneud cais

Mae'r Cyngor yn cael ei rwystro gan ddeddf rhag rhoi cymorth ariannol i unigolion.

Gallwch wneud cais os:

- ydych yn grŵp gweithredol, nad yw'n gwneud elw, er budd y gymuned yn Aberystwyth.
- yw eich grŵp wedi cael ei sefydlu at ddibenion elusennol. Fodd bynnag, nid oes rhaid i chi fod wedi cofrestru fel elusen neu wedi eich cydnabod gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi i wneud cais am grant. Bydd angen i chi gael rhyw fath o bwyllgor rheoli neu grŵp llywio gyda chyfrif banc gyda mwy nag un llofnodwr.
- os ydych yn grŵp o bobl, nad ydych o angenrheidrwydd wedi eich cyfansoddi, sydd wedi dod at eich gilydd yn benodol i redeg prosiect heb gael cyfansoddiad ar wahân. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc ar wahân. Caiff grantiau yn yr amgylchiadau hyn eu gwneud ar sail unwaith ac am byth, ac os ydych yn dymuno gwneud cais eto yn y dyfodol, mae'n rhaid fod gan eich grŵp gyfansoddiad;
- ydy eich nodau a'ch amcanion yn glir ac yn diffinio'n dda a bod budd gwirioneddol i gymuned Aberystwyth;
- oes gennych gyfansoddiad neu set o reolau (rhaid i chi eu cynnwys gyda'ch ffurflen gais);
- oes gennych gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gydag o leiaf dau lofnodwr ar y cyd
- oes gennych gyfrifon blynyddol neu ddatganiad o incwm a gwariant (rhaid eu cynnwys, gyda'ch cais);
- ydy eich grŵp yn gweithio tuag at bolisi a chyfansoddiad cyfle cyfartal ac yn gallu dangos ei fod yn gweithio o fewn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac yn ymwybodol o ofynion iechyd a diogelwch

- oes gennych bolisi amddiffyn plant yn gweithio a / neu bolisi amddiffyn oedolion agored i niwed os ydych yn gweithio yn y maes hwn
- ydych yn gymdeithas ysgol / PTA yn gwneud cais am grant sydd ar gyfer gweithgaredd allgyrsiol (yn amodol ar y cyllid yn cael ei gorlannu ac yn amodol ar yr ymgeiswyr yn sefydlu cyfrifon banc ar wahân a chyfansoddiad).

Grwpiau newydd

Croesewir ceisiadau gan grwpiau newydd. Bydd angen i ni wybod:

- pam eich bod eisiau cychwyn y grŵp a sut y bydd yn parhau
- a oes gennych unrhyw gymorth oddi wrth bobl sydd am ymuno neu redeg y grŵp
- sut rydych yn gwybod bod angen

Fel grŵp newydd, efallai na fyddwch yn gallu darparu set o gyfrifon blynyddol, fodd bynnag, byddai angen i ni weld cyfriflenni banc, amcangyfrif o'ch incwm a gwariant ar gyfer eich blwyddyn gyntaf.

Canghennau

Os ydych yn gangen o sefydliad mwy rhaid i chi gael:

- cyfansoddiad neu set o reolau eich hun
- pwyllgor rheoli ar wahân
- eich cyfrif banc eich hun
- eich cyfrifon blynyddol eich hunain a gymeradwywyd gan y pwyllgor rheoli;
- rheolaeth dros eich incwm eich hun a sut mae'n cael ei wario
- brîff penodol ar gyfer gweithgareddau o fudd i rai, neu bob un, o drigolion cymuned Aberystwyth.

Unigolion

Mae unigolion sy'n dymuno rhedeg prosiectau a fyddai o fudd i'r gymuned yn gymwys i wneud cais os yw'r meini prawf canlynol / amodau yn cael eu bodloni:

- cyfrif banc, ar wahân i gyfrif personol yr unigolion, yn cael ei sefydlu gyda dau lofnodwr annibynnol
- mae tystiolaeth o gefnogaeth buddiolwyr arfaethedig y prosiect

Y swm y gellir gwneud cais amdano?

Y ffigwr uchafswm sy'n daladwy ar gyfer grantiau yw £2,000.

Mae'n rhaid i ymgeisydd sy'n gwneud cais am £2,000 ddarparu tystiolaeth ar ffurf cynllun busnes a rhagolygon ariannol.

Beth na fydd yn cael ei ariannu

Ni fydd grantiau yn cael eu darparu ar gyfer:

- Gweithgareddau sy'n rhan o rwymedigaethau statudol neu amnewid cyllid statudol, gan gynnwys gweithgarwch cwricwlaidd mewn ysgolion ayb.
- Gwaddolion
- Cyflogau o unrhyw ddisgrifiad
- Ad-daliadau Benthyciad
- Cyfraddau, treth y cyngor a chyfleustodau
- Costau yswiriant
- cerbydau ffordd ail law
- Prosiectau gyda chostau cynnal a chadw parhaus uchel - oni bai y gall eich grŵp ddangos bod gennych y cronfeydd / sgiliau i'w cynnal unwaith y bydd eich grant Cyngor Tref Aberystwyth yn rhedeg allan
- Grwpiau gwleidyddol

Efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r grant

Bydd yn rhaid ad-dalu'r grant os:

- oes achos difrifol o dorri'r telerau ac amodau
- yw'r grŵp yn rhoi'r gorau i weithredu cyn i'r arian gael ei wario
- os nad yw prosiect yn symud ymlaen fel y bwriadwyd. Rhaid i'r grant gael ei ddefnyddio o fewn blwyddyn. Rydym yn cydnabod y gall amserlenni prosiect lithro am resymau da ond byddem yn disgwyl i gael gwybod am unrhyw broblemau. Os nad yw prosiect yn symud ymlaen fel y cynlluniwyd byddem yn disgwyl i'r grant gael ei ddychwelyd.

Bydd unrhyw un sydd yn ymddwyn yn anonest mewn gwneud y cais, neu gwario'r grant, yn cael eu hadrodd i'r heddlu a bydd y Cyngor yn pwyso am erlyn.

Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth

Wrth lofnodi'r ffurflen gais, byddwch yn rhoi caniatâd i Gyngor Tref Aberystwyth i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych ar gyfer:

- sefydlu eich hawl i gael grant
- ei gynnwys ar gofrestr cyfrifiadurol a gynhelir gan Gyngor Tref Aberystwyth
- gweinyddu ac asesu eich cais am grant.

Ein nod yw gwneud ein proses asesu grantiau mor agored a chlir â phosibl. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'n bosibl y byddwn:

- yn cynnal cyfarfodydd pwyllgor agored, lle rydym yn trafod ceisiadau unigol o flaen y cyhoedd neu'r cyfryngau
- yn caniatáu i'ch cynrychiolwyr i weld gwybodaeth am y ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ar eich cais.

Fodd bynnag, byddem bob amser yn awyddus i barchu cyfrinachedd y wybodaeth a ddarperir a bydd y Cyngor yn barnu ar sail achos-wrth-achos yr hyn a fyddai'n briodol i'w ddatgelu.

Rydym yn cydnabod yr angen i gadw cyfrinachedd grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed, ac ni fydd eu manylion yn cael eu gwneud yn gyhoeddus mewn unrhyw ffordd, ac eithrio fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Os ydych yn credu bod eich cais yn dod o fewn y categori hwn, rhowch wybod i ni.

Telerau ac Amodau

Darllenwch y rhain yn ofalus gan ei fod yn amod ar unrhyw gais eich bod wedi darllen, deall a derbyn y Telerau ac Amodau.

- Bydd pob cais yn mynd gerbron y Pwyllgor Cyllid a fydd yn gwneud argymhellion cyllideb i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo. Mae'r holl benderfyniadau a wneir gan y Cyngor Llawn yn derfynol. Nodwch fod y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid a'r Cyngor Tref yn agored i aelodau'r wasg a'r cyhoedd, a bod cofnodion y cyfarfodydd ar gael yn Swyddfa'r Cyngor Tref.
- Os byddwch yn cael grant, gall ond cael ei ddefnyddio at y diben a nodir yn y ffurflen gais ac ni ellir ei roi i unrhyw grŵp arall.
- Ni fyddwn yn rhoi grantiau i dalu am gostau sydd eisoes wedi eu codi ac ni all y grant gael ei gynyddu.
- Bydd eich grant yn cael ei dalu drwy siec yn daladwy i'r cyfrif banc a nodir ar y ffurflen gais.

- Gofynnir i chi gwblhau adroddiad byr i ddweud wrthym beth ydych wedi ei gyflawni gyda'r arian. Byddwn hefyd yn gofyn i chi am brawf bod yr arian wedi cael ei wario at y dibenion a fwriadwyd, a chedwir yr hawl i gynnal archwiliad os bydd angen.
- Rhaid i'r grant gan Gyngor Tref Aberystwyth gael ei gydnabod mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ac yng nghyfrifon y grŵp.
- Byddwn yn defnyddio enw eich grŵp (nid manylion personol) a'i brosiect yn ein deunydd cyhoeddusrwydd ein hunain.
- Pan fydd grant yn dod i ben, nid yw Cyngor Tref Aberystwyth yn ymrwymo i ddarparu unrhyw gyllid pellach ar gyfer y prosiect.
- Uchafswm y grant a gynigir yw £2,000.

Gallai'r wybodaeth yn y nodiadau hyn newid o bryd i'w gilydd. Gall polisi a rheoliadau ar ddosbarthu arian hefyd newid. Rydym yn cadw'r hawl i newid unrhyw bolisi, gweithdrefnau a meini prawf asesu a byddwn yn anelu i roi gwybod i fuddiolwyr gwirioneddol neu bosibl.

Nid yw'r ffurflen gais o reidrwydd yn adlewyrchu'r holl wybodaeth a ddefnyddir gan y Pwyllgor i benderfynu ar geisiadau. Gall y Pwyllgor ofyn am wybodaeth ychwanegol i wirio eich cais a'ch sefydliad.

Anfonwch eich ffurflen gais at:

Clerc y Cyngor Tref
Cyngor Tref Aberystwyth
11 Stryd y Popty
Aberystwyth
SY23 2BJ

01970 624761
council@aberystwyth.gov.uk

Rhowch wybod i ni os ydych angen y ffurflen hon mewn fformat arall

Adolygwyd 2022